



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

**2000 Rhif 1096 (Cy. 74)**

**2000 No. 1096 (W. 74)**

**PYSGODFEYDD MÔR,  
CYMRU**

**SEA FISHERIES,  
WALES**

**Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi  
Mesurau Cymunedol ynghylch  
Cwotâu a Physgota gan Drydydd  
Gwledydd) (Cymru) 2000**

**The Sea Fishing (Enforcement of  
Community Quota and Third  
Country Fishing Measures)  
(Wales) Order 2000**

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

*(This note does not form part of the Order)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer gorfodi yng Nghymru a'r môr tiriogaethol cyfagos at Gymru gyfyngiadau Cymunedol gorfodadwy penodol a rhwymedigaethau eraill sy'n berthnasol i bysgota môr gan gychod Cymunedol a chychod trydydd gwledydd a nodir yn Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 2742/1999 (OJ Rhif L341, 31.12.99, t.1) ("Rheoliad y Cyngor").

This Order makes provision for the enforcement within Wales and the territorial sea adjacent to Wales of certain enforceable Community restrictions and other obligations relating to sea fishing by both Community and third country vessels set out in Council Regulation (EC) No. 2742/1999 (OJ No. L341, 31.12.99, p.1) ("the Council Regulation").

Mae Rheoliad y Cyngor yn sefydlu cyfanswm yr haldiadau a ganiateir a chwotâu yr Aelod-wladwriaethau ar gyfer 2000 ac yn pennu amodau penodol ynglŷn â sut y gellir eu dal.

The Council Regulation fixes total allowable catches and Member States' quotas for 2000 and lays down certain conditions under which they may be fished.

Mae hefyd yn awdurdodi pysgota gan gychod Norwy ac Ynysoedd Ffarøe am ddisgrifiadau penodedig o bysgod o fewn ardaloedd penodedig y tu mewn i derfynau pysgodfeydd yr Aelod-wladwriaethau yn 2000 ac yn gosod gofynion ynghylch cwotâu pysgota a pharthau a awdurdodwyd, dulliau pysgota, dal trwyddedau a chadw at amodau trwyddedau, cadw coflyfrau, gwneud adroddiadau a materion cyffelyb.

It also authorises fishing by vessels of Norway and the Faroe Islands for specified descriptions of fish in certain specified areas within Member States' fishery limits in 2000 and imposes requirements concerning fishing quotas and authorised zones, methods of fishing, the holding of licences and observance of licence conditions, the keeping of log books, the making of reports and similar matters.

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn yn creu tramgwyddau mewn perthynas â thorri darpariaethau Rheoliad y Cyngor y cyfeirir atynt yng ngholofn 1 (ac a ddisgrifir yn gryno yng ngholofn 2) o Atodlenni 1 (ar gyfer cychod y Gymuned) a 2 (ar gyfer cychod trydydd gwledydd) i'r Gorchymyn. Pennir cosbau ar gyfer tramgwyddau o'r fath (erthygl 4). Ar hyn o bryd

Article 3 of the Order creates offences in respect of breaches of the provisions of the Council Regulation referred to in column 1 (and briefly described in column 2) of Schedules 1 (for Community vessels) and 2 (for third country vessels) to the Order. Penalties are specified for such offences (article 4). The statutory maximum penalty specified in the Schedules is

£5,000 yw'r uchafswm statudol y cyfeirir ato yn yr Atodlenni. Gwneir darpariaeth ar gyfer casglu dirwyon (erthygl 5).

Mae'r Gorchymyn yn rhoi pwerau gorfodi i swyddogion pysgodfeydd môr Prydeinig mewn perthynas â chychod pysgota penodol o fewn y môr tiriogaethol cyfagos at Gymru ac ar dir yng Nghymru mewn perthynas â chipio pysgod ac offer pysgota (erthyglau 6, 7 ac 8). Gwneir darpariaeth ar gyfer cosbi unrhyw un a geir yn euog o ymosod ar swyddog, neu ei rwystro (erthygl 10).

Mae'r Gorchymyn yn diddymu Gorchymyn Pysgodfeydd Môr (Gorfodi Mesurau Cwota'r Gymuned) 1999 (O.S. 1999/424) a Gorchymyn Pysgota Trydydd Gwledydd (Gorfodi) 1999 (O.S. 1999/425) i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru.

currently £5,000. Provision is made for the recovery of fines (article 5).

The Order confers powers of enforcement on British sea-fishery officers in relation to certain fishing boats within the territorial sea adjacent to Wales and on land in Wales in relation to the seizure of fish and fishing gear (articles 6, 7 and 8). Provision is made for the punishment of anyone found guilty of assaulting or obstructing an officer (article 10).

The Order revokes the Sea Fishing (Enforcement of Community Quota Measures) Order 1999 (S.I.1999/424) and the Third Country Fishing (Enforcement) Order 1999 (S.I. 1999/425) insofar as they apply to Wales.

**2000 Rhif 1096 (Cy. 74)****2000 No. 1096 (W. 74)****PYSGODFEYDD MÔR,  
CYMRU****SEA FISHERIES,  
WALES****Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi  
Mesurau Cymunedol ynghylch  
Cwotâu a Physgota gan Drydydd  
Gwledydd) (Cymru) 2000****The Sea Fishing (Enforcement of  
Community Quota and Third  
Country Fishing Measures)  
(Wales) Order 2000***Wedi'i wneud**10 Ebrill 2000**Made**10th April 2000**Yn dod i rym**11 Ebrill 2000**Coming into force**11th April 2000*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 30(2) o Ddeddf Pysgodfeydd 1981(a), sydd yn awr wedi eu breinio ynddo, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru(b) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

In exercise of the powers conferred by section 30(2) of the Fisheries Act 1981(a), which are now vested in it, the National Assembly for Wales(b) hereby makes the following Order:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cymunedol ynghylch Cwotâu a Physgota gan Drydydd Gwledydd) (Cymru) 2000 a daw i rym ar 11 Ebrill 2000.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru a'r môr tiriogaethol cyfagos at Gymru.

**Title, commencement and application**

1.-(1) This Order may be cited as the Sea Fishing (Enforcement of Community Quota and Third Country Fishing Measures) (Wales) Order 2000 and shall come into force on 11th April 2000.

(2) This Order applies to Wales and the territorial sea adjacent to Wales.

(a) 1981 p.29. Gweler adran 30(3) i gael diffiniadau "cyfyngiad Cymunedol gorfodadwy" ("enforceable Community restriction"), "rhwymedigaeth Gymunedol orfodadwy" ("enforceable Community obligation") ac "y Gweinidogion" ("the Ministers") fel y'u diwygiwyd gan Atodlen 2, paragraff 68(5) i Orchymyn Deddf yr Alban 1998 (Addasiadau Canlyniadol) (Rhif 2) 1999 (O.S. 1999/1820). Mae erthygl 3(1) o Orchymyn Deddf yr Alban 1998 (Swyddogaethau Cyfamserol) 1999 (O.S. 1999/1592) ac Atodlen 1 iddi yn darparu i'r swyddogaethau sy'n arferadwy o dan adran 30(2) o Ddeddf 1981 gael eu harfer gan y Gweinidogion, yn gyfamserol â Gweinidogion yr Alban, mewn perthynas â'r canlynol: cychod pysgota Prydeinig perthnasol o fewn y parth Albanaidd; a chychod pysgota yr Alban o fewn ffiniau pysgodfeydd Prydain ond y tu allan i'r parth Albanaidd (am "y parth Albanaidd" gweler adran 126 o Ddeddf yr Alban 1998 (p.46) a Gorchymyn Ffiniau Dyfroedd Cyfagos at yr Alban 1999 (O.S. 1999/1126)).

(b) Yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, a swyddogaethau'r Ysgrifenyddion Gwladol ynglŷn â physgota môr yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon o dan adran 30(2) o Ddeddf Pysgodfeydd 1981 (p.29), i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(a) 1981 c.29; see section 30(3) for the definitions of "enforceable Community restriction" ("cyfyngiad Cymunedol gorfodadwy"), "enforceable Community obligation" ("rhwymedigaeth Gymunedol orfodadwy") and "the Ministers", ("y Gweinidogion") as modified by Schedule 2, paragraph 68(5) of the Scotland Act 1998 (Consequential Modifications)(No.2)Order 1999 (S.I. 1999/1820). Article 3(1) and Schedule 1 of the Scotland Act 1998 (Concurrent Functions) Order 1999 (S.I. 1999/1592) provide for the functions exercisable under section 30(2) of the 1981 Act to be exercised by the Ministers, concurrently with Scottish Ministers, in relation to: relevant British fishing boats within the Scottish zone; and Scottish fishing boats within British fishery limits but outside the Scottish zone (for "the Scottish zone" see section 126 of the Scotland Act 1998 (c.46) and the Scottish Adjacent Waters Boundaries Order 1999 (S.I. 1999/1126)).

(b) By virtue of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672), the functions of the Minister of Agriculture Fisheries and Food, and the Secretaries of State respectively concerned with sea fishing in Wales, Scotland and Northern Ireland under section 30(2) of the Fisheries Act 1981 (c.29) were, so far as they were exercisable in relation to Wales, transferred to the National Assembly for Wales.

## Dehongli

2.-(1) Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr “cwch pysgota Albanaidd” (“*Scottish fishing boat*”) yw cwch pysgota a gofrestrwyd ar y gofrestr a gedwir o dan adran 8 o Ddeddf Llongau Masnachol 1995 (a) ac y mae ei fanylion yn y gofrestr yn pennu porthladd yn yr Alban fel y porthladd y dylid ei drin fel y porthladd y mae'r cwch yn perthyn iddo;

ystyr “cwch pysgota Prydeinig perthnasol” (“*relevant British fishing boat*”) yw cwch pysgota nad yw'n gwch pysgota Albanaidd sydd wedi ei gofrestru yn y Deyrnas Unedig o dan Ran II o Ddeddf Llongau Masnachol 1995 neu a berchenogir yn gyfan gwbl gan bersonau sy'n gymwysedig i berchenogi llongau Prydeinig at ddibenion y rhan honno o'r Ddeddf honno;

ystyr “cwch pysgota trydedd wlad” (“*third country fishing boat*”) yw cwch pysgota sy'n cyhwanu baner gwladwriaeth nad yw'n Aelod-wladwriaeth o'r Gymuned Ewropeaidd ac sydd wedi ei gofrestru ynddi;

ystyr “darpariaeth Gymunedol benodedig” (“*specified Community provision*”) yw un o ddarpariaethau Rheoliad y Cyngor a bennir yng ngholofn 1 o Atodlenni 1 a 2 i'r Gorchymyn hwn fel y'i darllenir gydag unrhyw eiriau amodi sy'n berthnasol i'r ddarpariaeth honno yn y golofn honno;

dehonglir “y môr tiriogaethol cyfagos at Gymru” (“*the territorial sea adjacent to Wales*”) yn unol ag Erthygl 6 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999(b) ac Atodlen 3 iddo;

ystyr “Rheoliad y Cyngor” (“*the Council Regulation*”) yw Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 2742/1999(c) sy'n sefydlu ar gyfer 2000 y cyfleoedd pysgota ac amodau cysylltiedig ar gyfer rhai stociau o bysgod a grwpiau o stociau o bysgod, sy'n gymwys yn nyfroedd y Gymuned ac, i gychod y Gymuned, mewn dyfroedd lle mae angen cyfyngu ar yr haldiadau ac yn diwygio Rheoliad (CE) Rhif 66/98;

ystyr “Rheoliad y Cyngor 2847/93” (“*Council Regulation 2847/93*”) yw Rheoliad y Cyngor (CEE) Rhif 2847/93(ch) a sefydlodd gyfundrefn reoli gymwys i'r polisi pysgodfeydd cyffredin fel y'i diwygiwyd gan Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 2870/95(d), Penderfyniad y Cyngor (CE) 95/528(dd), Rheoliad y Cyngor (CE) 2489/96(e), Rheoliad y Cyngor (CE) 686/97(f), Rheoliad y Cyngor (CE)

(a) 1995 p.21.

(b) O.S. 1999/672.

(c) OJ Rhif L341, 31.12.99, t.1.

(ch) OJ Rhif L261, 20.10.93.

(d) OJ Rhif L301, 14.12.95, t.1.

(dd) OJ Rhif L301, 14.12.95, t.35.

(e) OJ Rhif L338, 28.12.96, t.12.

(f) OJ Rhif L102, 19.4.97, t.1.

## Interpretation

2.-(1) In this Order -

“the Council Regulation” (“*Rheoliad y Cyngor*”) means Council Regulation (EC) No. 2742/1999(a) fixing for 2000 the fishing opportunities and associated conditions for certain fish stocks and groups of fish stocks, applicable in Community waters and, for Community vessels, in waters where limitations in catch are required and amending Regulation (EC) No. 66/98;

“Council Regulation 2847/93” (“*Rheoliad y Cyngor 2847/93*”) means Council Regulation (EEC) No. 2847/93 establishing a control system applicable to the common fisheries policy(b) as amended by Council Regulation (EC) No. 2870/95(c), Council Decision (EC) No. 95/528(d), Council Regulation (EC) No. 2489/96(e), Council Regulation (EC) No. 686/97(f), Council Regulation (EC) No. 2205/97(g), Council Regulation (EC) No. 2635/97(h) and Council Regulation (EC) No. 2846/98(i);

“relevant British fishing boat” (“*cwch pysgota Prydeinig perthnasol*”) means a fishing boat, other than a Scottish fishing boat, which is registered in the United Kingdom under Part II of the Merchant Shipping Act 1995(j) or is owned wholly by persons qualified to own British ships for the purposes of that Part of that Act;

“relevant offence” (“*tramgwydd perthnasol*”) means an offence under:

(a) article 3 of this Order; or

(b) any provision in an order extending to any other part of the United Kingdom made for the purposes of implementing a specified Community provision, being a provision in respect of which, by virtue of section 30(2A) of the Fisheries Act 1981(k), proceedings may be commenced in any place in the United Kingdom;

“Scottish fishing boat” (“*cwch pysgota Albanaidd*”) means a fishing vessel which is registered in the register maintained under section 8 of the Merchant Shipping Act 1995 and whose entry in the register specifies a port in Scotland as the port to which the vessel is to be treated as belonging;

“specified Community provision” (“*darpariaeth*”) means

(a) OJ No. L341, 31.12.99, p.1.

(b) OJ No. L261, 20.10.93.

(c) OJ No. L301, 14.12.95, p.1.

(d) OJ No. L301, 14.12.95, p.35.

(e) OJ No. L338, 28.12.96, p.12.

(f) OJ No. L102, 19.4.97, p.1.

(g) OJ No. L304, 7.11.97, p.1.

(h) OJ No. L356, 31.12.97, p.14.

(i) OJ No. L358, 31.12.98, p.5

(j) 1995, c.21.

(k) Inserted by the Scotland Act 1998 (Consequential Modifications) (No.2) Order 1999 (S.I. 1999/1820).

2205/97(a), Rheoliad y Cyngor (CE) 2635/97(b) a Rheoliad y Cyngor (CE) 2846/98(c); ac

ystyr “tramgwydd perthnasol” (“*relevant offence*”) yw tramgwydd o dan:

- (a) erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn; neu
- (b) unrhyw ddarpariaeth mewn gorchymyn sy'n ymestyn i unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig a wneir at ddibenion gweithredu darpariaeth Gymunedol benodedig, sydd yn ddarpariaeth, yn rhinwedd adran 30(2A) o Ddeddf Pysgodfeydd 1981(ch), y gellir cychwyn achos ynglŷn â hi mewn unrhyw le yn y Deyrnas Unedig.

(2) Yn y Gorchymyn hwn -

(a) mae unrhyw gyfeiriad at offeryn Cymunedol yn gyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygiwyd ar y dyddiad y gwneir y Gorchymyn hwn;

(b) mae unrhyw gyfeiriad at goflyfr, datganiad neu ddogfen yn cynnwys, yn ogystal â choflyfr, datganiad neu ddogfen ysgrifenedig -

- (i) unrhyw fap, plan, graff neu ddarlun;
- (ii) unrhyw ffotograff;
- (iii) unrhyw ddisg, tâp, trac sain neu ddyfais arall sy'n recordio seiniau neu ddata arall fel bod modd eu hatgynhyrchu ohono (gyda chymorth rhyw gyfarpar arall, neu hebdo);
- (iv) unrhyw ffilm (gan gynnwys microffilm), negatif, tâp, disg neu ddyfais arall y mae un neu fwy o ddelweddau gweledol yn cael eu recordio arno fel bod modd eu hatgynhyrchu oddi arnynt (yn yr un modd ag uchod); a
- (v) unrhyw ddata, sut bynnag y caiff ei atgynhyrchu, a gyflëir drwy gyfrwng system monitro cychod wedi ei seilio ar loeren a sefydlir o dan Erthygl 3.1 o Reoliad y Cyngor 2847/93.

(3) Rhaid peidio â darllen colofn 2 o Atodlenni 1 a 2 (sy'n darparu gwybodaeth ynglŷn â phwnc y ddarpariaeth mewn perthynas â phob darpariaeth Gymunedol benodedig) mewn ffordd fydd yn cyfyngu cwmpas unrhyw ddarpariaeth Gymunedol benodedig a rhaid ei diystyru mewn perthynas ag unrhyw gwestiwn sy'n codi ynglŷn â dehongli'r Gorchymyn hwn.

*Gymunedol benodedig*”) means a provision of the Council Regulation specified in column 1 of Schedules 1 and 2 to this Order as read with any qualifying words relating to that provision in that column;

“the territorial sea adjacent to Wales” (“*y môr tiriogaethol cyfagos at Gymru*”) shall be interpreted in accordance with article 6 and Schedule 3 of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999(a);

(2) In this Order-

(a) any reference to a Community instrument is a reference to that instrument as amended on the date this Order is made;

(b) any reference to a logbook, declaration or document includes, in addition to a logbook, declaration or document in writing -

- (i) any map, plan, graph or drawing;
- (ii) any photograph;
- (iii) any disk, tape, sound track or other device in which sounds or other data are recorded so as to be capable (with or without the aid of some other equipment) of being reproduced therefrom;
- (iv) any film (including microfilm), negative, tape, disk or other device in which one or more visual images are recorded so as to be capable (as aforesaid) of being reproduced therefrom; and
- (v) any data, howsoever reproduced, communicated via a satellite-based vessel monitoring system established under Article 3.1 of Council Regulation 2847/93.

(3) Column 2 of Schedules 1 and 2 (which provide in relation to each specified Community provision an indication of the subject matter of the provision) shall not be read as limiting the scope of any specified Community provision and shall be disregarded in relation to any question arising as to the construction of this Order.

---

(a) OJ Rhif L304, 7.11.97, t.1.

(b) OJ Rhif L356, 31.12.97, t.14.

(c) OJ Rhif L358, 31.12.98, t.5.

(ch) A fewnosodwyd gan Orchymyn Deddf yr Alban 1998 (Addasiadau Canlyniadol) (Rhif 2)1999 (O.S. 1999/1820).

---

(a) S.I. 1999/672.

(4) At ddibenion y gwaharddiad a gynhwysir ym mharagraff 2 o Atodiad IV i Reoliad y Cyngor:

- (a) yr harbyrau lle y caiff cwch pysgota lanio haldiadau o bysgod sy'n cynnwys penwaig heb eu didoli yw'r harbyrau hynny yng Nghymru neu o fewn y môr tiriogaethol cyfagos at Gymru sydd â systemau samplo y mae swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig yn penderfynu eu bod yn ddigonol at lanio haldiad o'r fath;
- (b) wrth wneud penderfyniad o'r fath, rhaid i swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig roi sylw i gyfanswm maint a nodweddion yr haldiad;
- (c) dim ond ar ôl cais gan feistr cwch pysgota i swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig yn yr harbwr hwnnw cyn glanio'r haldiad y caiff swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig wneud penderfyniad o'r fath; ac
- (ch) rhaid i swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig roi gwybod i feistr cwch pysgota am unrhyw benderfyniad o'r fath.

### **Tramgwyddo**

3.-(1) Pan fydd, mewn perthynas ag unrhyw gwch pysgota o fewn y môr tiriogaethol cyfagos at Gymru unrhyw ddarpariaeth Gymunedol benodedig yng ngholofn 1 o Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn cael ei thorri, neu pan fethir â chydymffurfio â hi, bydd y meistr, y perchennog, a'r siartwr (os oes un) bob un yn euog o dramgwydd.

(2) Pan fydd, mewn perthynas ag unrhyw gwch pysgota o fewn y môr tiriogaethol cyfagos at Gymru, a hwnnw'n gwch pysgota y mae unrhyw ddarpariaeth Gymunedol benodedig yng ngholofn 1 o Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddo, unrhyw ddarpariaeth Gymunedol benodedig o'r fath yn cael ei thorri, neu pan fethir â chydymffurfio â hi, bydd y meistr, y perchennog, a'r siartwr (os oes un) bob un yn euog o dramgwydd.

### **Cosbi**

4.-(1) Bydd person a geir yn euog o dramgwydd o dan erthygl 3(1) o'r Gorchymyn hwn, neu o dan unrhyw ddarpariaeth gyfatebol mewn gorchymyn sy'n ymestyn i unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig, y dygwyd achos mewn perthynas ag ef yng Nghymru yn rhinwedd adran 30(2A) o Ddeddf Pysgodfeydd 1981, yn agored -

- (a) o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn fwy na'r swm a bennir yng ngholofn 3 o Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn mewn perthynas â'r ddarpariaeth Gymunedol benodedig y bu ei thorri neu fethiant i gydymffurfio â hi yn sail i'r tramgwydd; a
- (b) o'i gollfarnu ar ddiad, i ddirwy.

(4) For the purpose of the prohibition contained in paragraph 2 of Annex IV to the Council Regulation:

- (a) the harbours at which a fishing boat may land a catch of fish containing unsorted herring are those within Wales or within the territorial sea adjacent to Wales whose sampling systems a British sea-fishery officer at that harbour decides are adequate for landing such a catch;
- (b) in making such a decision, a British sea-fishery officer shall have regard to the overall size and characteristics of a catch;
- (c) a British sea-fishery officer may only make such a decision following an application by the master of a fishing boat to a British sea-fishery officer at that harbour before the landing of a catch; and
- (d) a British sea-fishery officer shall notify the master of a fishing boat of any such decision.

### **Offences**

3.-(1) Where there is, in respect of any fishing boat within the territorial sea adjacent to Wales a contravention of, or failure to comply with, any specified Community provision in column 1 of Schedule 1 to this Order, the master, the owner and the charterer (if any) shall each be guilty of an offence.

(2) Where there is, in respect of any fishing boat within the territorial sea adjacent to Wales, being a fishing boat to which any specified Community provision in column 1 of Schedule 2 to this Order applies, a contravention of, or failure to comply with, any such specified Community provision, the master, the owner and the charterer (if any) shall each be guilty of an offence.

### **Penalties**

4.-(1) A person found guilty of an offence under article 3(1) of this Order, or under any equivalent provision in an order extending to any other part of the United Kingdom proceedings in respect of which have been brought in Wales by virtue of section 30(2A) of the Fisheries Act 1981, shall be liable -

- (a) on summary conviction, to a fine not exceeding the amount specified in column 3 of Schedule 1 to this Order in relation to the specified Community provision, the contravention of, or failure to comply with which, founded the offence; and
- (b) on conviction on indictment, to a fine.

(2) Bydd person a geir yn euog o dramgwydd o dan erthygl 3(2) o'r Gorchymyn hwn, neu o dan unrhyw ddarpariaeth gyfatebol mewn gorchymyn sy'n ymestyn i unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig, y dygwyd achos mewn perthynas ag ef yng Nghymru yn rhinwedd adran 30(2A) o Ddeddf Pysgodfeydd 1981, yn agored -

- (a) o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn fwy na'r swm a bennir yng nghlofn 3 o Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn mewn perthynas â'r ddarpariaeth Gymunedol benodedig y bu ei thorri neu fethiant i gydymffurfio â hi yn sail i'r tramgwydd; a
- (b) o'i gollfarnu ar ddiad, i ddirwy.

### Casglu dirwyon

5.-(1) Pan roir dirwy gan lys ynadon yng Nghymru ar feistr, perchennog neu siartwr (os oes un), neu ar unrhyw berson arall a gollfarnir gan y llys o dramgwydd perthnasol neu dramgwydd o dan erthygl 10, er mwyn casglu'r ddirwy caiff y llys -

- (a) rhoi gwarant atafaelu yn erbyn y cwch a oedd yn gysylltiedig â chyflawni'r tramgwydd a'i offer a'i haldiad ac unrhyw eiddo sydd gan y person a gollfarnwyd er mwyn casglu swm y ddirwy; neu
- (b) gorchymyn cadw y cwch hwnnw a'i offer a'i haldiad am gyfnod o ddim mwy na thri mis o ddyddiad y gollfarn neu hyd nes y telir y ddirwy neu y cesglir swm y ddirwy yn unol ag unrhyw warant o'r fath, p'un bynnag fydd yn digwydd gyntaf.

(2) Bydd adrannau 77(1) a 78 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980(a) (gohirio rhoi gwarantau atafaelu, a diffygion ynddynt) yn gymwys i warant atafaelu a roddir o dan yr erthygl hon yng Nghymru fel y maent yn gymwys i warant atafaelu a roddir o dan Ran III o'r Ddeddf honno.

(3) Pan fydd gorchymyn trosglwyddo dirwy mewn perthynas â dirwy ynglŷn â thramgwydd perthnasol yn cael ei wneud o dan adran 90 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980, erthygl 95 o Orchymyn Llysoedd Ynadon (Gogledd Iwerddon) 1981(b) neu adran 222 o Ddeddf Gweithdrefn Droseddol (Yr Alban) 1995(c) ac yn pennu ardal llys ynadon yng Nghymru bydd yr erthygl hon yn gymwys fel petai'r ddirwy wedi ei rhoi gan lys o fewn yr ardal llys ynadon honno.

(2) A person found guilty of an offence under article 3(2) of this Order, or under any equivalent provision in an order extending to any other part of the United Kingdom proceedings in respect of which have been brought in Wales by virtue of section 30(2A) of the Fisheries Act 1981, shall be liable-

- (a) on summary conviction, to a fine not exceeding the amount specified in column 3 of Schedule 2 to this Order in relation to the specified Community provision, the contravention of, or failure to comply with which, founded the offence; and
- (b) on conviction on indictment, to a fine.

### Recovery of fines

5.-(1) Where a fine is imposed by a magistrates' court in Wales on a master, owner, charterer (if any), or any other person who is convicted by the court of a relevant offence or an offence under article 10, the court may for the purposes of recovering the fine -

- (a) issue a warrant of distress against the boat involved in the commission of the offence and its gear and catch and any property of the person convicted for the purpose of levying the amount of the fine; or
- (b) order such boat and its gear and catch to be detained for a period not exceeding three months from the date of the conviction or until the fine is paid or the amount of the fine is levied in pursuance of any such warrant, whichever occurs first.

(2) Sections 77(1) and 78 of the Magistrates' Courts Act 1980(a) (postponement of issue of, and defects in, warrants of distress) shall apply to a warrant of distress issued under this article in Wales as they apply to a warrant of distress issued under Part III of that Act.

(3) Where in relation to a fine in respect of a relevant offence a transfer of fine order under section 90 of the Magistrates' Courts Act 1980, Article 95 of the Magistrates' Courts (Northern Ireland) Order 1981(b) or section 222 of the Criminal Procedure (Scotland) Act 1995(c) specifies a petty sessions area in Wales this article shall apply as if the fine were imposed by a court within that petty sessions area.

---

(a) 1980, p.43.

(b) O.S. 1981/1675 (G.I. 26).

(c) 1995, p.46.

---

(a) 1980, c.43.

(b) S.I. 1981/1675 (N.I. 26).

(c) 1995, c.46.

## **Pwerau swyddogion pysgodfeydd môr Prydeinig mewn perthynas â chychod pysgota**

6.-(1) Er mwyn gorfodi erthygl 3(1) o'r Gorchymyn hwn, neu unrhyw ddarpariaeth gyfatebol mewn gorchymyn sy'n ymestyn i unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig wedi'i wneud er mwyn gweithredu darpariaeth Gymunedol benodedig, caiff swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig arfer y pwerau a roddir gan baragraffau (3) i (5) o'r erthygl hon o fewn y môr tiriogaethol cyfagos at Gymru.

(2) Er mwyn gorfodi erthygl 3(2) o'r Gorchymyn hwn, neu unrhyw ddarpariaeth gyfatebol mewn gorchymyn sy'n ymestyn i unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig wedi'i wneud er mwyn gweithredu darpariaeth Gymunedol benodedig, caiff swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig arfer y pwerau a roddir gan baragraffau (3) i (5) o'r erthygl hon mewn perthynas ag unrhyw gwch pysgota o fewn y môr cyfagos at Gymru, a hwnnw'n gwch pysgota y mae darpariaeth Gymunedol benodedig yn gymwys iddo.

(3) Caiff y swyddog fynd ar fwrdd y cwch, gyda phersonau a neilltuwyd i gynorthwyo gyda'i ddyletswyddau neu hebddynt, a chaiff ei gwneud yn ofynnol bod y cwch yn stopio ac yn gwneud unrhyw beth arall a fydd yn hwyluso naill ai mynd ar fwrdd y cwch neu fynd oddi arno.

(4) Caiff y swyddog ei gwneud yn ofynnol bod y meist'r ac unrhyw bersonau eraill sydd ar fwrdd y cwch yn bresennol a chaiff wneud unrhyw archwiliad ac ymholiadau sy'n ymddangos i'r swyddog yn angenrheidiol at y dibenion a grybwyllir ym mharagraff (1) neu (2) o'r erthygl hon ac, yn benodol -

- (a) caiff chwilio am bysgod neu offer pysgota ar y cwch a chaiff archwilio unrhyw bysgod ar y cwch a chyfarpar y cwch, gan gynnwys yr offer pysgota, a'i gwneud yn ofynnol bod personau sydd ar fwrdd y cwch yn gwneud unrhyw beth sy'n ymddangos i'r swyddog yn angenrheidiol ar gyfer hwyluso'r archwiliad;
- (b) caiff ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw berson sydd ar fwrdd y cwch yn cyflwyno unrhyw ddogfen ynglŷn â'r cwch, unrhyw weithrediadau pysgota neu weithrediadau ategol iddynt neu ynglŷn â'r personau sydd ar fwrdd y cwch sydd yng nghadwraeth neu feddiant y person hwnnw;
- (c) er mwyn canfod a oes tramgwydd perthnasol wedi'i gyflawni, caiff chwilio'r cwch am unrhyw ddogfen o'r fath a gall ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw berson ar fwrdd y cwch yn gwneud unrhyw beth sy'n ymddangos i'r swyddog yn angenrheidiol ar gyfer hwyluso'r chwilio gan gynnwys cyflwyno pob dogfen ar gyfrifiadu'r cwch mewn ffurf weladwy a darllenadwy;

## **Powers of British sea-fishery officers in relation to fishing boats**

6.-(1) For the purpose of enforcing article 3(1) of this Order, or any equivalent provision in an order extending to any other part of the United Kingdom made for the purposes of implementing a specified Community provision, a British sea-fishery officer may exercise within the territorial sea adjacent to Wales the powers conferred by paragraphs (3) to (5) of this article.

(2) For the purpose of enforcing the provisions of article 3(2) of this Order, or any equivalent provision in an order extending to any other part of the United Kingdom made for the purposes of implementing a specified Community provision, a British sea-fishery officer may exercise the powers conferred by paragraphs (3) to (5) of this article in relation to any fishing boat within the territorial sea adjacent to Wales, being a fishing boat to which a specified Community provision applies.

(3) The officer may go on board the boat, with or without persons assigned to assist in his or her duties, and may require the boat to stop and do anything else which will facilitate either the boarding of, or the disembarkation from, the boat.

(4) The officer may require the attendance of the master and other persons on board the boat and may make any examination and inquiry which appears to the officer to be necessary for the purposes mentioned in paragraph (1) or (2) of this article and, in particular -

- (a) may search for fish or fishing gear on the boat and may examine any fish on the boat and the equipment of the boat, including the fishing gear, and require persons on board the boat to do anything which appears to the officer to be necessary for facilitating the examination;
- (b) may require any person on board the boat to produce any document relating to the boat, to any fishing operations or other operations ancillary thereto or to the persons on board which is in that person's custody or possession;
- (c) for the purpose of ascertaining whether a relevant offence has been committed, may search the boat for any such document and may require any person on board the boat to do anything which appears to the officer to be necessary for facilitating the search including rendering all documents on the boat's computer systems into a visible and legible form;



- (ch) caiff archwilio a chopio unrhyw ddogfen o'r fath a gyflwynir neu y deuir o hyd iddi ar fwrdd y cwch a phan fydd unrhyw ddogfen o'r fath yn cael ei chadw trwy ddefnyddio cyfrifiadur, caiff ei gwneud yn ofynnol ei bod yn cael ei chyflwyno mewn ffurf y gellir mynd â hi oddi yno; a
- (d) os oes gan y swyddog reswm dros amau bod tramgwydd perthnasol wedi'i gyflawni mewn perthynas â'r cwch, caiff gipio a chadw unrhyw ddogfen o'r fath a gyflwynir i'r swyddog neu y deuir o hyd iddi ar fwrdd y cwch er mwyn galluogi defnyddio'r ddogfen fel tystiolaeth mewn achos ynglŷn â'r tramgwydd;

- (d) inspect and take copies of any such document produced or found on board and where any such document is kept by means of a computer, require it to be produced in a form in which it may be taken away; and
- (e) where the boat is one in relation to which the officer has reason to suspect that a relevant offence has been committed, may seize and detain any such document produced to the officer or found on board for the purpose of enabling the document to be used as evidence in proceedings for the offence;

ond ni fydd dim yn is-baragraff (d) uchod yn caniatáu cipio a chadw unrhyw ddogfen y mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol ei bod yn cael ei chario ar fwrdd y cwch, ac eithrio pan fydd y cwch yn cael ei gadw mewn porthladd.

but nothing in sub-paragraph (e) above shall permit any document required by law to be carried on board the boat to be seized and detained except while the boat is detained in a port.

(5) Pan fydd yn ymddangos i swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig fod tramgwydd perthnasol wedi'i gyflawni ar unrhyw adeg, caiff y swyddog -

(5) Where it appears to a British sea-fishery officer that a relevant offence has at any time been committed, the officer may -

- (a) ei gwneud yn ofynnol bod meist'r y cwch y cyflawnwyd y tramgwydd mewn perthynas ag ef yn mynd â'r cwch a'i griw i'r porthladd sy'n ymddangos i'r swyddog fel y porthladd cyfleus agosaf neu caiff y swyddog wneud hynny ei hun; a
- (b) cadw'r cwch yn y porthladd neu ei gwneud yn ofynnol bod y meist'r yn ei gadw yn y porthladd;

- (a) require the master of the boat in relation to which the offence took place to take, or the officer may personally take, the boat and its crew to the port which appears to the officer to be the nearest convenient port; and
- (b) detain or require the master to detain the boat in port;

a phan fydd swyddog o'r fath yn cadw neu'n ei gwneud yn ofynnol cadw cwch rhaid i'r swyddog gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r meist'r yn datgan y caiff y cwch ei gadw neu ei bod yn ofynnol ei gadw hyd oni thynnir yr hysbysiad yn ôl drwy gyflwyno i'r meist'r hysbysiad ysgrifenedig arall a lofnodwyd gan swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig.

and where such an officer detains or requires the detention of a boat the officer shall serve on the master a notice in writing stating that the boat will be or is required to be detained until the notice is withdrawn by the service on the master of a further notice in writing signed by a British sea-fishery officer.

#### **Pwerau swyddogion pysgodfeydd môr Prydeinig ar y tir**

#### **Powers of British sea-fishery officers on land**

7.-(1) Er mwyn gorfodi darpariaethau erthygl 3(1) neu 3(2) o'r Gorchymyn hwn, neu unrhyw ddarpariaethau cyfatebol mewn gorchymyn sy'n ymestyn i unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig, wedi'i wneud er mwyn gweithredu unrhyw ddarpariaeth Gymunedol benodedig, caiff unrhyw swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig, yng Nghymru -

7.-(1) For the purpose of enforcing the provisions of article 3(1) or 3(2) of this Order, or any equivalent provisions in an order extending to any other part of the United Kingdom made for the purposes of implementing any specified Community provision, any British sea-fishery officer may in Wales -

- (a) mynd i mewn ac archwilio ar unrhyw adeg resymol unrhyw adeiladau a ddefnyddir ar gyfer rhedeg busnes mewn cysylltiad â

- (a) enter and inspect at any reasonable time any premises used for carrying on any business in connection with the operation of fishing boats

gweithio cychod pysgota neu unrhyw weithrediadau sy'n gysylltiedig â hynny neu'n ategol iddynt neu mewn cysylltiad â thrin, storio neu werthu pysgod môr;

- (b) cymryd gydag ef neu hi unrhyw bersonau eraill sy'n ymddangos i'r swyddog yn angenrheidiol ac unrhyw gyfarpar neu ddeunyddiau;
- (c) archwilio unrhyw bysgod yn yr adeiladau a'i gwneud yn ofynnol bod unrhyw bersonau yno'n gwneud unrhyw beth sy'n ymddangos i'r swyddog yn angenrheidiol ar gyfer hwyluso'r archwilio;
- (ch) cyflawni yn yr adeiladau hynny unrhyw archwiliadau neu brofion eraill a fydd yn rhesymol angenrheidiol;
- (d) ei gwneud yn ofynnol na fydd neb yn gwaredu nac yn peri gwaredu unrhyw bysgod o'r adeiladau hynny yn ystod unrhyw gyfnod a fydd yn rhesymol angenrheidiol i sefydlu a gyflawnwyd tramgwydd perthnasol ar unrhyw adeg;
- (dd) ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw berson yn yr adeiladau yn cyflwyno unrhyw ddogfennau yn ei gadwraeth neu ei feddiant mewn perthynas â dal, glanio, cludo, trawslwytho, gwerthu neu waredu unrhyw bysgod môr;
- (e) er mwyn canfod a oes unrhyw berson yn yr adeiladau wedi cyflawni tramgwydd perthnasol, chwilio'r adeiladau am unrhyw ddogfen o'r fath a gall ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw berson yn yr adeiladau'n gwneud unrhyw beth sy'n ymddangos i'r swyddog yn angenrheidiol i hwyluso'r chwilio, gan gynnwys trosi pob dogfen ar gyfrifiadur y cwch i ffurf weladwy a darllenadwy;
- (f) archwilio a chopio unrhyw ddogfen o'r fath a gyflwynir iddo neu y deuir o hyd iddi yn yr adeiladau, a phan fydd unrhyw ddogfen o'r fath yn cael ei chadw drwy ddefnyddio cyfrifiadur caiff ei gwneud yn ofynnol ei bod yn cael ei chyflwyno mewn ffurf y gellir mynd â hi oddi yno; ac
- (ff) os oes gan y swyddog reswm dros amau bod tramgwydd perthnasol wedi'i gyflawni, caiff gipio a chadw unrhyw ddogfen a gyflwynir iddo neu y deuir o hyd iddi yn yr adeiladau er mwyn galluogi defnyddio'r ddogfen fel tystiolaeth mewn achos ynglŷn â'r tramgwydd.

(2) Bydd darpariaethau paragraff (1) uchod yn gymwys, gyda'r newidiadau angenrheidiol, mewn perthynas ag unrhyw dir a ddefnyddir mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r gweithgareddau a ddisgrifir ym mharagraff (1) uchod, neu mewn cysylltiad ag unrhyw gerbyd y mae gan swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig achos rhesymol dros gredu ei fod yn cael ei ddefnyddio i gludo cynhyrchion pysgodfeydd, yn yr un

or activities connected therewith or ancillary thereto or with the treatment, storage or sale of sea fish;

- (b) take with him or her such other persons as appear to the officer to be necessary and any equipment or materials;
- (c) examine any fish on the premises and require persons on the premises to do anything which appears to the officer to be necessary for facilitating the examination;
- (d) carry out at such premises such other inspections or tests as may reasonably be necessary;
- (e) require any person not to remove or cause to be removed any fish from such premises for such a period as may be reasonably necessary for the purposes of establishing whether a relevant offence has at any time been committed;
- (f) require any person on the premises to produce any documents which are in his or her custody or possession relating to the catching, landing, transportation, trans-shipment, sale or disposal of any sea fish;
- (g) for the purpose of ascertaining whether any person on the premises has committed a relevant offence, search the premises for any such document and may require any person on the premises to do anything which appears to the officer to be necessary for facilitating the search including rendering all documents on computer systems into a visible and legible form;
- (h) inspect and take copies of any such document produced to him or her or found on the premises and, where any such document is kept by means of a computer, require it to be produced in a form in which it may be taken away; and
- (i) if the officer has reason to suspect that a relevant offence has been committed, seize and detain any such document produced to him or her or found on the premises for the purpose of enabling the document to be used as evidence in proceedings for the offence.

(2) The provisions of paragraph (1) above shall apply with necessary modifications in relation to any land used in connection with any of the activities described in paragraph (1) above, or in respect of any vehicle which a British sea-fishery officer has reasonable cause to believe is being used to transport fisheries products, as they apply in relation to premises and, in the case of a vehicle, shall include power to

modd ag y maent yn gymwys i adeiladau ac, yn achos cerbyd, maent yn cynnwys y pŵer i'w gwneud yn ofynnol ar unrhyw adeg fod cerbyd yn stopio, ac, os oes angen, i gyfarwyddo'r cerbyd i ryw fan arall i hwyluso'r archwilio.

(3) Os oes yng Nghymru ynad heddwch, ar ôl derbyn hysbysiaeth ysgrifenedig ar lw, wedi'i fodloni -

- (a) bod yna sail resymol dros gredu bod unrhyw ddogfen neu eitem arall y mae gan swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig bŵer o dan yr erthygl hon i'w harchwilio mewn unrhyw adeiladau a bod eu harchwilio yn debyg o ddatgelu tystiolaeth bod tramgwydd perthnasol wedi'i gyflawni; a
- (b) naill ai -
  - (i) bod mynediad i'r adeiladau wedi'i wrthod neu'n debyg o gael ei wrthod a bod hysbysiad o'r bwriad i wneud cais am warant wedi'i roddi i'r meddiannydd; neu
  - (ii) y byddai gwneud cais am fynediad neu roi hysbysiad o'r fath yn rhwystro bwriad y mynediad, neu nad yw'r adeiladau yn cael eu meddiannu, neu fod y meddiannydd yn absennol dros dro, ac y gallai aros i'r meddiannydd ddychwelyd rwystro bwriad y mynediad;

fe gaiff yr ynad drwy gyfrwng gwarant a lofnodir ganddo ac a fydd yn ddilys am fis, awdurdodi swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig i fynd i'r adeiladau, drwy ddefnyddio grym rhesymol os oes ei angen, ac i fynd â'r personau sy'n ymddangos i'r swyddog yn angenrheidiol.

#### **Pwerau swyddogion pysgodfeydd môr Prydeinig i gipio pysgod ac offer pysgota**

**8.** Yng Nghymru ac yn y môr tiriogaethol cyfagos at Gymru, caiff unrhyw swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig, mewn perthynas ag unrhyw gwch pysgota, gipio -

- (a) unrhyw bysgod (gan gynnwys unrhyw gynhwysydd sy'n dal y pysgod) y mae gan y swyddog sail resymol dros amau fod tramgwydd perthnasol wedi'i gyflawni mewn perthynas â hwy; a
- (b) unrhyw rwyd neu offer pysgota arall y mae gan y swyddog sail resymol dros amau eu bod wedi eu defnyddio wrth gyflawni tramgwydd perthnasol.

#### **Amddiffyn swyddogion**

**9.** Ni fydd swyddog na pherson sy'n cynorthwyo swyddog yn rhinwedd erthyglau 6(3) neu 7(1)(b) o'r Gorchymyn hwn yn agored i unrhyw achosion sifil neu droseddol am unrhyw beth a wneir drwy arfer honedig o'r pwerau a roddwyd iddo neu iddi gan erthygl 6, 7

require the vehicle to stop at any time and, if necessary, direct the vehicle to some other place to facilitate the inspection.

(3) If in Wales a justice of the peace on sworn information in writing is satisfied -

- (a) that there is reasonable ground to believe that any document or other item which a British sea-fishery officer has power under this article to inspect is on any premises and that its inspection is likely to disclose evidence of the commission of a relevant offence; and
- (b) either -
  - (i) that admission to the premises has been or is likely to be refused and that notice of intention to apply for a warrant has been given to the occupier; or
  - (ii) that an application for admission or the giving of such notice would defeat the object of the entry, or that the premises are unoccupied, or that the occupier is temporarily absent and it might defeat the object of the entry to await the occupier's return,

the justice may by warrant signed by him or her, and valid for one month, authorise a British sea-fishery officer to enter the premises, if need be by reasonable force, and take with him or her such persons as appear to the officer to be necessary.

#### **Powers of British sea-fishery officers to seize fish and fishing gear**

**8.** In Wales, and in the territorial sea adjacent to Wales, any British sea fishery officer, may, in relation to any fishing boat, seize -

- (a) any fish (including any receptacle which contains the fish) in respect of which he or she has reasonable grounds to suspect that a relevant offence has been committed; and
- (b) any net or other fishing gear which he or she has reasonable grounds to suspect has been used in the course of the commission of a relevant offence.

#### **Protection of officers**

**9.** An officer or a person assisting an officer by virtue of article 6(3) or 7(1)(b) of this Order shall not be liable in any civil or criminal proceedings for anything done in the purported exercise of the powers conferred on him or her by article 6, 7 or 8 of this

neu 8 o'r Gorchymyn hwn os yw'r llys wedi'i fodloni fod y weithred wedi'i gwneud yn ddidwyll, bod sail resymol dros wneud hynny a'i bod wedi'i gwneud gyda medr a gofal rhesymol.

### **Rhwystro swyddogion**

#### **10. Bydd unrhyw berson sydd-**

- (a) heb esgus rhesymol yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad a osodir gan swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig o dan y pwerau a roddir i swyddogion pysgodfeydd môr Prydeinig yn rhinwedd erthyglau 6, 7 neu 8 o'r Gorchymyn hwn;
- (b) heb esgus rhesymol yn rhwystro, neu'n ceisio rhwystro unrhyw berson arall rhag cydymffurfio â gofyniad o'r fath; neu
- (c) yn ymosod ar swyddog sydd wrthi'n arfer unrhyw un o'r pwerau a roddir i swyddogion pysgodfeydd môr Prydeinig yn rhinwedd erthyglau 6, 7 neu 8 o'r Gorchymyn hwn neu sy'n fwriadol yn rhwystro swyddog o'r fath wrth iddo arfer unrhyw un o'r pwerau hynny,

yn euog o dramgwydd ac yn agored -

- (i) o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn fwy na'r uchafswm statudol; neu
- (ii) o'i gollfarnu ar ddiad, i ddirwy.

### **Darpariaethau ynglŷn a thramgwyddau ac achosion**

**11.-(1)** Pan brofir bod unrhyw dramgwydd o dan erthygl 3(1) o'r Gorchymyn hwn a gyflawnwyd gan gorff corfforedig wedi'i gyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog cyffelyb arall o'r corff corfforedig, neu berson sy'n honni ei fod yn gweithredu mewn unrhyw swyddogaeth o'r fath, neu y gellir ei briodoli i unrhyw fethiant ar ei ran, bydd y person hwnnw, yn ogystal â'r corff corfforedig, yn euog o'r tramgwydd ac yn agored i achos a chosb yn unol â hynny.

(2) Pan brofir bod unrhyw dramgwydd o dan erthygl 3(1) o'r Gorchymyn hwn a gyflawnwyd gan bartneriaeth wedi'i gyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad partner, neu y gellir ei briodoli i unrhyw fethiant ar ei ran, bydd y person hwnnw yn ogystal â'r bartneriaeth yn euog o'r tramgwydd ac yn agored i achos a chosb yn unol â hynny.

(3) Pan brofir bod unrhyw dramgwydd o dan erthygl 3(1) o'r Gorchymyn hwn a gyflawnwyd gan gymdeithas anghorfforedig (heblaw partneriaeth) wedi'i gyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad unrhyw un o swyddogion y gymdeithas neu unrhyw aelod o'i chorff llywodraethu, neu y gellir ei briodoli i unrhyw fethiant ar ei ran, bydd y person hwnnw yn ogystal â'r gymdeithas yn euog o'r tramgwydd ac yn agored i achos a chosb yn unol â hynny.

Order if the court is satisfied that the act was done in good faith, that there were reasonable grounds for doing it and that it was done with reasonable skill and care.

### **Obstruction of officers**

#### **10. Any person who -**

- (a) fails without reasonable excuse to comply with any requirement imposed by a British sea-fishery officer under the powers conferred on British sea-fishery officers by article 6, 7 or 8 of this Order;
- (b) without reasonable excuse prevents, or attempts to prevent, any other person from complying with any such requirement; or
- (c) assaults an officer who is exercising any of the powers conferred on British sea-fishery officers by article 6, 7 or 8 of this Order or intentionally obstructs any such officer in the exercise of any of those powers,

shall be guilty of an offence and liable -

- (i) on summary conviction to a fine not exceeding the statutory maximum; or
- (ii) on conviction on indictment to a fine.

### **Provisions as to offences and proceedings**

**11.-(1)** Where any offence under article 3(1) of this Order committed by a body corporate is proved to have been committed with the consent or connivance of, or to be attributable to any neglect on the part of, a director, manager, secretary or other similar officer of the body corporate, or a person purporting to act in any such capacity, that person, as well as the body corporate, shall be guilty of the offence and liable to be proceeded against and punished accordingly.

(2) Where any offence under article 3(1) of this Order committed by a partnership is proved to have been committed with the consent or connivance of, or to be attributable to any neglect on the part of, a partner, that person, as well as the partnership, shall be guilty of the offence and liable to be proceeded against and punished accordingly.

(3) Where any offence under article 3(1) of this Order committed by an unincorporated association (other than a partnership) is proved to have been committed with the consent or connivance of, or to be attributable to any neglect on the part of, any officer of the association or any member of its governing body, that person, as well as the association, shall be guilty of the offence and liable to be proceeded against and punished accordingly.

## Derbynoldeb coflyfrau a dogfennau eraill fel tystiolaeth

### 12.-(1) Bydd unrhyw -

- (a) coflyfr a gedwir o dan Erthygl 6 neu 17.2 o Reoliad y Cyngor 2847/93;
- (b) datganiad a gyflwynir o dan o dan Erthygl 8.1, 12 neu 17.2 o Reoliad y Cyngor 2847/93;
- (c) dogfen a lunnir o dan Erthygl 9 neu 13 o Reoliad y Cyngor 2847/93;
- (ch) adroddiad ymdrech a gwblheir o dan Erthygl 19b neu 19c o Reoliad y Cyngor 2847/93; a
- (d) dogfen sy'n cynnwys gwybodaeth a fynnwyd ac a dderbynnir gan ganolfan monitro pysgodfeydd a sefydlir o dan Erthygl 3.7 o Reoliad y Cyngor 2847/93,

yn dystiolaeth, mewn unrhyw achos yng Nghymru ynglŷn â thramgwydd perthnasol, o'r materion a ddatgenir ynddynt.

(2) At ddibenion paragraff (1) o'r erthygl hon, bydd "gwybodaeth a fynnwyd" yn golygu data sy'n ymwneud â'r canlynol -

- (a) manylion adnabod cwch pysgota;
- (b) lleoliad daearyddol diweddaraf y cwch pysgota, wedi'i fynegi mewn graddau a munudau lledred a hydred; ac
- (c) y dyddiad a'r amser pan sefydlwyd y lleoliad hwnnw,

fel y'u cyflëir trwy system monitro cychod wedi ei seilio ar loeren a sefydlwyd o dan Erthygl 3.1 o Reoliad y Cyngor 2847/93.

(3) Bydd unrhyw goflyfr neu ddogfen arall a gedwir ar fwrdd y cwch neu a ddelir yn unol â darpariaeth gymunedol benodedig yn dystiolaeth o'r materion a ddatgenir ynddo mewn unrhyw achos ynglŷn â thramgwydd o dan erthygl 3(2) o'r Gorchymyn hwn, neu o dan unrhyw ddarpariaeth gyfatebol mewn unrhyw orchymyn sy'n ymestyn i unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig.

## Diddymu

**13.** Diddymir Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cymunedol ynghylch Cwotâu) 1999(a) a Gorchymyn Pysgota Trydydd Gwledydd (Gorfodi) 1999(b) drwy hyn i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru.

---

(a) O.S. 1999/424.

(b) O.S. 1999/425.

## Admissibility in evidence of logbooks and other documents

### 12.-(1) Any-

- (a) logbook kept under Article 6 or 17.2 of Council Regulation 2847/93;
- (b) declaration submitted under Article 8.1, 12 or 17.2 of Council Regulation 2847/93;
- (c) document drawn up under Article 9 or 13 of Council Regulation 2847/93;
- (d) effort report completed under Article 19b or 19c of Council Regulation 2847/93; and
- (e) document containing required information received by a fisheries monitoring centre established under Article 3.7 of Council Regulation 2847/93,

shall, in any proceedings in Wales for a relevant offence, be evidence of the matters stated therein.

(2) For the purposes of paragraph (1) of this article, "required information" shall mean data relating to -

- (a) a fishing boat's identification;
- (b) the most recent geographical position of the fishing boat expressed in degrees and minutes of longitude and latitude; and
- (c) the date and time of the fixing of that position,

as communicated via a satellite-based vessel monitoring system established under Article 3.1 of Council Regulation 2847/93.

(3) Any logbook or other document kept on board or held in pursuance of a specified Community provision shall, in any proceedings for an offence under article 3(2) of this Order, or under any equivalent provision in an order extending to any other part of the United Kingdom, be evidence of the matters stated therein.

## Revocation

**13.** The Sea Fishing (Enforcement of Community Quota Measures) Order 1999(a) and the Third Country Fishing (Enforcement) Order 1999(b) are hereby revoked insofar as they apply to Wales.

---

(a) S.I. 1999/ 424.

(b) S.I. 1999/ 425.

10 Ebrill 2000

10th April 2000

*D. Elis Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

<b>ATODLEN 1</b>		<b>Erthygl 4(1)</b>
<b>DARPARIAETHAU CYMUNEDOL PENODEDIG SY'N GYMWYS I GYCHOD Y GYMUNED AC UCHAFSWM Y DDIRWY AR GOLLFARNIAD DIANNOD</b>		
<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>	<i>Colofn 3</i>
<b>Y ddarpariaeth yn Rheoliad y Cyngor</b>	<b>Y pwnc</b>	<b>Uchafswm y ddirwy ar gollfarniad diannod</b>
1. Erthygl 6.1, i'r graddau bod y paragraff hwnnw yn ymwneud â chadw pysgod ar fwrdd cwch neu eu glanio.	Gwaharddiadau ar gadw ar fwrdd y cwch, neu lanio, haldiadau allan o stociau y mae cyfanswm yr haldiadau a ganiateir, neu gwotâu, wedi'u pennu ar eu cyfer, a'r rheini wedi'u dihysbyddu.	£50,000.
2. Erthygl 6.1, i'r graddau bod y paragraff hwnnw yn ymwneud â chyfansoddiad yr haldiad neu ddiidoli'r haldiad.	Gwaharddiadau mewn amgylchiadau penodol ar gadw ar fwrdd y cwch, neu lanio, haldiadau sydd â chyfansoddiad penodol neu sydd wedi'u didoli.	Yr uchafswm statudol.
3. Erthygl 6.2.	Gwaharddiad ar lanio haldiadau sydd heb eu didoli ac sy'n cynnwys penwaig pan yw'r cyfyngiadau ar haldiadau a nodir yn Atodiad II i Reoliad y Cyngor wedi'u dihysbyddu.	£50,000.
4. Erthygl 8 ac Atodiad IV paragraffau 2 a 6.	Gwaharddiad ar lanio haldiadau sy'n cynnwys penwaig heb eu didoli mewn harbyrau lle nad oes systemau samplu digonol ar gael(a).  Gwaharddiad ar gynnig gwerthu penwaig i bobl eu bwyta, a'r rheini'n benwaig a ddaliwyd yn yr ardaloedd a bennir yn Atodiad IV paragraff 6 gan gychod yn cario rhwydi i'w tynnu ac isafswm maint eu masgl yn llai na 32mm ac wedi'u glanio.	Yr uchafswm statudo.

(a) Hynny yw, unrhyw harbwr heblaw harbwr y mae Erthygl 2(24) yn cyfeirio ato.

**ATODLEN 2**

**Erthygl 4(2)**

**DARPARIAETHAU CYMUNEDOL PENODEDIG SY'N GYMWYS I GYCHOD  
Y GYMUNED AC UCHAFSWM Y DDIRWY  
AR GOLLFARNIAD DIANNOD**

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>	<i>Colofn 3</i>
<b>Y ddarpariaeth yn Rheoliad y Cyngor</b>	<b>Y pwnc</b>	<b>Uchafswm y ddirwy ar gollfarniad diannod</b>
1. Erthygl 10.	Gofyniad mewn perthynas â chychod sy'n cyhwanfu baner Norwy neu Ynysoedd Farøe, eu bod yn pysgota o fewn terfynau'r cwota a gynhwysir yn Atodiad I i Erthygl 11(i) o Reoliad y Cyngor, ac o fewn y parth daearyddol a nodir ynddi.	£50,000.
2. Erthygl 13.1.	Gofyniad mewn perthynas â chychod sy'n cyhwanfu baner Norwy (heblaw chychod o lai na 200GT) neu ganddynt drwydded a hawlen bysgota arbennig a'u bod yn cadw amodau'r rheini.	£50,000.
3. Erthygl 13.2 .	Gofyniad mewn perthynas â chychod sy'n cyhwanfu baner Norwy neu Ynysoedd Farøe, eu bod yn cadw trwyddedau a hawlenni pysgota arbennig ar fwrdd y llong.	Yr uchafswm statudol.
4. Erthygl 14.1.	Gofyniad mewn perthynas â chychod sy'n cyhwanfu baner Norwy neu Ynysoedd Farøe, eu bod yn cydymffurfio â'r mesurau ar gadwraeth a rheolaeth a phob darpariaeth arall sy'n llywodraethu pysgota gan gychod y Gymuned yn y parthau o dan sylw, gan gynnwys y mesurau a'r darpariaethau hynny y cyfeirir atynt yn Erthygl 14.1.	£50,000.
5. Erthygl 14.2.	Gofyniad mewn perthynas â chychod sy'n cyhwanfu baner Norwy neu Ynysoedd Farøe, eu bod yn cadw coflyfr i gydymffurfio ag Atodiad VII i Reoliad y Cyngor.	£50,000.
6. Erthygl 14.3.	Gofyniad mewn perthynas â chychod sy'n cyhwanfu baner Norwy, (heblaw'r rhai sy'n pysgota yn adran IIIa ICES) neu longau Ynysoedd Farøe, eu bod yn trosglwyddo gwybodaeth i gydymffurfio ag Atodiad VIII i Reoliad y Cyngor.	Yr uchafswm statudol.

**SCHEDULE 1**

**Article 4(1)**

**SPECIFIED COMMUNITY PROVISIONS  
APPLICABLE TO COMMUNITY VESSELS AND  
MAXIMUM FINES ON SUMMARY CONVICTION**

<i>Column 1</i>	<i>Column 2</i>	<i>Column 3</i>
<b>Provision of the Council Regulation</b>	<b>Subject matter</b>	<b>Maximum fine on summary conviction</b>
1. Article 6.1, in so far as that paragraph relates to retaining on board or landing.	Prohibitions on retaining on board or landing catches from stocks for which total allowable catches or quotas are fixed and have been exhausted.	£50,000.
2. Article 6.1, in so far as that paragraph relates to catch composition or sorting.	Prohibitions in certain circumstances on retaining on board or landing catches having a certain composition or which have been sorted.	The statutory maximum.
3. Article 6.2.	Prohibition on landing catches which are unsorted and contain herring when the catch limitations set out in Annex II to the Council Regulation have been exhausted.	£50,000.
4. Article 8 and Annex IV paragraphs 2 and 6.	Prohibition on landing catches containing unsorted herring in harbours where adequate sampling systems are not in place(a).  Prohibition on offering for sale for human consumption herring caught in the areas specified in Annex IV paragraph 6 by vessels carrying towed nets of a minimum mesh size of less than 32mm and landed.	The statutory maximum.

(a) That is, any harbour other than a harbour to which article 2(4) refers



**SCHEDULE 2**

**Article 4(2)**

**SPECIFIED COMMUNITY PROVISIONS  
APPLICABLE TO COMMUNITY VESSELS AND  
MAXIMUM FINES ON SUMMARY CONVICTION**

<i>Column 1</i>	<i>Column 2</i>	<i>Column 3</i>
<b>Provision of the Council Regulation</b>	<b>Subject matter</b>	<b>Maximum fine on summary conviction</b>
1. Article 10.	Requirement in relation to vessels flying the flag of Norway or the Faroe Islands to fish within the quota limits contained in Annex I to, and within the geographical zone set out in Article 11(i) of, the Council Regulation.	£50,000.
2. Article 13.1.	Requirement in relation to vessels flying the flag of Norway (other than those of less than 200 GT) or the Faroe Islands to hold licence and special fishing permit and observance of conditions thereof.	£50,000.
3. Article 13.2.	Requirement in relation to vessels flying the flag of Norway to keep on board licences and special fishing permits.	The statutory maximum.
4. Article 14.1.	Requirement in relation to vessels flying the flag of Norway or the Faroe Islands to comply with the conservation and control measures and all other provisions governing fishing by Community vessels in the zones concerned, including those measures and provisions referred to in Article 14.1.	£50,000.
5. Article 14.2.	Requirement in relation to vessels flying the flag of Norway or the Faroe Islands to keep a logbook in compliance with Annex VII to the Council Regulation.	£50,000.
6. Article 14.3.	Requirement in relation to vessels flying the flag of Norway (other than those fishing in ICES division IIIa) or the Faroe Islands to transmit information in compliance with Annex VIII to the Council Regulation.	The statutory maximum.

---

OFFERYNNAU STATUDOL

---

**2000 Rhif 1096 (Cy. 74)**

**PYSGODFEYDD MÔR,  
CYMRU**

Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi  
Mesurau Cymunedol ynghylch  
Cwotâu a Physgota gan Drydydd  
Gwledydd) (Cymru) 2000

---

STATUTORY INSTRUMENTS

---

**2000 No. 1096 (W. 74)**

**SEA FISHERIES,  
WALES**

The Sea Fishing (Enforcement of  
Community Quota and Third  
Country Fishing Measures)  
(Wales) Order 2000

©© Hawlfraint y Goron 2000

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery  
Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr  
Gwasg El Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.


**£3.50**

WO6103 06/00 ON

© Crown copyright 2000

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited  
under the authority and superintendence of Carol Tullo,  
Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of  
Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090057-X



9 780110 900575